

Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwr yng Nghymru 2003

Crynodeb: Dysgwyr yng Ngogledd Cymru

Sail ar gyfer dysgwyr yng Ngogledd Cymru: 1553 AB, 233 Dysgu yn y Gwaith wedi'i bwysoli

Cyflwyniad

Mae'r crynodeb hwn yn archwilio rhai o'r canfyddiadau ar gyfer dysgwyr ym maes Addysg Bellach (AB) a Dysgu yn y Gwaith yng Ngogledd Cymru sy'n deillio o'r Arolwg o Foddhad y Dysgwr. Ni cheir yma ddadansoddiad o Ddysgu Cymunedol ac Oedolion o ganlyniad i faint cymharol isel sail rhai o'r rhanbarthau. Rydym wedi nodi peth gwybodaeth am ddemograffeg isod. Mae'n bosibl y gall gwahaniaethau allweddol yma effeithio ar y dadansoddiad drwy gydol y crynodeb. Dyma'r dadansoddiad o oedran a'r dull dysgu ar gyfer ymatebwyr yng Ngogledd Cymru:

	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y Gogledd	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y Gogledd
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1553	1001	233
Oed	%	%	%	%
16-18	25	11	36	28
19-24	14	9	49	58
25-54	50	62	15	13
55+	12	18	1	-
Dull dysgu				
Amser Llawn	32	16	50	45
Rhan-amser sy'n llai na 3 awr yr wythnos	33	40	30	34
Rhan-amser sy'n fwy na 3 awr yr wythnos	34	42	18	18
% sy'n mynychu yn ystod y dydd	69	69	92	93

Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

Boddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu

Roedd dysgwyr ym maes AB a Dysgu yn y Gwaith yng Ngogledd Cymru ychydig yn fwy tebygol o fod yn eithriadol fodlon *neu'n* fodlon iawn gyda'u profiad cyffredinol na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (76% ar gyfer AB o'i gymharu â 70% y cyfartaledd cyffredinol a 73% ar gyfer Dysgu yn y Gwaith o'i gymharu â 69% y cyfartaledd cyffredinol).

Cyfradd foddhad	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y Gogledd	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y Gogledd
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1553	1001	233
	%	%	%	%
Eithriadol fodlon	27	29	23	25
Bodlon iawn	43	47	46	48
Gweddol fodlon	22	17	24	23
Heb fod yn un na'r llall	2	2	2	2
Eithriadol	5	5	4	2
anfodlon/anfodlon iawn/eithaf anfodlon				

Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

Boddhad gyda'r addysgu/hyfforddiant

Roedd y sgôr ar gyfer boddhad cyffredinol gydag ansawdd yr addysgu ar gyfer AB a Dysgu yn y Gwaith yng Ngogledd Cymru yn debyg i'r cyfartaledd cyffredinol.

Cyfradd foddhad	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y Gogledd	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y Gogledd
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1553	1001	233
	%	%	%	%

Eithriadol fodlon	30	30	22	24
Bodlon iawn	36	38	37	37
Gweddol fodlon	24	23	33	30
Heb fod yn un na'r llall	3	2	3	4
Eithriadol	6	5	5	4
anfodlon/anfodlon iawn/eithaf anfodlon				

Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

Gofynnodd yr arolwg i ddysgwyr ystyried amrywiol fesurau penodol ar gyfer ansawdd athrawon / hyfforddwyr neu aseswyr a rhoi sgôr iddynt o 1 i 10 lle'r oedd 10 yn golygu eithriadol fodlon. Dengys y tabl canlynol:

- Ar gyfer AB, cafwyd rhai mesurau lle yr oedd dysgwyr yng Ngogledd Cymru yn fwy parod, o'u cymharu â holl ddysgwyr Cymru, i roi 9 neu 10 allan o 10. Roedd y rhain yn gwneud defnydd da o'r amser a oedd ar gael yn y gwersi, gan wneud y pwnc yn ddiddorol ac yn hwyliog a hefyd yn ymdrin â dysgwyr aflonyddgar.
- Ar gyfer Dysgu yn y Gwaith yng Ngogledd Cymru, roedd y sgôr a roddwyd yn debyg i'r cyfartaledd cyffredinol.

Mesur (% a gafodd sgôr o 9 neu 10 allan o 10)	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y Gogledd	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y Gogledd
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1553	1001	233
	%	%	%	%
Gallu i esbonio'r pwnc	54	58	48	47
Gwrandao ar eich anghenion	51	52	47	47
Y pwnc yn ddiddorol/hwyliog	47	53	36	36
Yn gwneud defnydd da o amser y wers / sesiwn	44	49	37	39
Y gefnogaeth a gewch ganddynt	43	46	40	38
Ansawdd / hygyrchedd deunyddiau	43	46	38	40
Ymdrin â dysgwyr aflonyddgar	43	50	36	32
Adborth rheolaidd / prydlon	42	45	37	38
Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu	40	44	39	41
Targedau clir i'ch helpu i wella	39	42	38	39

Noder: Mae celloedd wedi'u huwchleuo ar gyfer AB neu Dysgu yn y Gwaith os yw % y rhanbarth o leiaf +/-5% yn uwch neu'n is na chyfartaledd cyffredinol Cymru. Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

Gweinyddu / rheoli dysgu

O safbwynt rheoli a gweinyddu dysgu (mesurau penodol wedi'u cynllunio i archwilio sut y mae'r darparwr yn rheoli'r profiad dysgu):

- Roedd dysgwyr AB yng Ngogledd Cymru yn fwy tebygol o lawer o roi sgôr o 9 neu 10 allan o 10 i'w darparwr o'u cymharu â dysgwyr yng Nghymru yn gyffredinol.
- Ym maes Dysgu yn y Gwaith, roedd dysgwyr yng Ngogledd Cymru yr un mor debygol neu'n fwy tebygol o roi sgôr o 9 neu 10 allan o 10 i'w darparwr ar gyfer y mesurau a ganlyn: gwneud yn siwr bod digon o hyfforddwyr/aseswyr ar gael, helpu pobl newydd i setlo i mewn, rheoli amserlenni fel eu bod

mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr a gweld yr un aseswr bob tro.

Mesur (% a gafodd sgôr o 9 neu 10 allan o 10)	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y Gogledd	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y Gogledd
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1553	1001	233
	%	%	%	%
Helpu pobl newydd i setlo i mewn	54	61	48	48
Rhoi cymorth pan fydd gen i neu ddysgwyr eraill broblemau	50	55	45	41
Rheoli amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr	45	51	42	44
Gwneud yn siwr bod digon o hyfforddwy'r/aseswyr ar gael	43	47	45	47
Rhoi gwybod am newidiadau yn amseroedd y sesiynau	41	49	35	30
Aseswyr yn dod i asesu fel y cynlluniwyd	Dd/B	Dd/B	52	50
Gweld yr un aseswr bob tro	Dd/B	Dd/B	56	57

Noder: Mae celloedd wedi'u huwcholeuo ar gyfer AB neu Dysgu yn y Gwaith os yw % y rhanbarth o leiaf +/-5% yn uwch neu'n is na chyfartaledd cyffredinol Cymru. Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

Boddhad gyda chyfleusterau

Yn debyg i'r ymarfer i roi sgôr i athrawon / hyfforddwy'r ac aseswyr, gofynnodd yr arolwg i ddysgwyr ystyried yr amrywiol fathau o gyfleusterau gan roi sgôr o 1 i 10 iddynt lle bydd 10 yn eithriadol fodlon. Dengys y tabl isod % y dysgwyr sy'n rhoi sgôr o 9 neu 10 allan o 10 (y graddau gorau). Dengys y tabl:

- Ym maes AB, roedd dysgwyr yn fwy parod o lawer i roi sgôr o 9 neu 10 allan o 10 ar gyfer y cyfleusterau nag oedd dysgwyr yng Nghymru yn gyffredinol. Yn wir, ar gyfer yr holl opsiynau, roeddent yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol, neu'n uwch eto.
- Roedd Dysgu yn y Gwaith yn y Gogledd yn llai parod o lawer (o'u cymharu â'r cyfartaledd cyffredinol) i roi'r graddau uchaf i gyngor gyrfaoi a chyfleusterau ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill.

Mesur (% a gafodd sgôr o 9 neu 10 allan o 10)	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y Gogledd	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y Gogledd
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1553	1001	233
	%	%	%	%
Offer / cyfleusterau TG	55	60	54	54
Llyfrgell a chanolfan ddysgu	52	54	37	33
Cyfleusterau ar gyfer anabledau / anawsterau dysgu	52	59	47	48
Cyfleusterau gofal plant	49	55	30	27
Gwasanaethau cefnogi dysgu	48	57	44	46
Gwasanaethau cefnogi eraill (cynghori, cyngor ar gyllid ac ati)	43	54	34	31
Cyngor gyrfaoi	41	46	41	34
Offer / cyfleusterau chwaraeon	41	46	35	35
Offer arbenigol arall sy'n berthnasol i'r dysgu	40	43	39	43
Ffreutur/caffi	33	33	37	35
Cyfleusterau ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill	31	33	32	26

Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Ar gyfer ystod o elfennau'r rhaglen ddysgu, gofynnwyd i ddysgwyr i ba raddau, os o gwbl, oedd eu dysgu ar gael iddynt drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Ym maes AB yng Ngogledd Cymru, roedd dysgwyr yn llai tebygol o lawer (o'u cymharu â ffigur cyfartalog Cymru gyfan) o ddweud nad oedd dim o'r hyn a ddywedwyd na'r taflenni gwaith a gyflwynwyd yn Gymraeg.
- Ym maes Dysgu yn y Gwaith yng Ngogledd Cymru, roedd dysgwyr yn fwy tebygol o lawer i ddweud eu bod wedi cael dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg na dysgwyr yng Nghymru yn gyffredinol.

	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y Gogledd	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y Gogledd
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1553	1001	233
Cymorth gan hyfforddwy'r / tiwtoriaid / aseswyr y tu allan i wersi / sesiynau	%	%	%	%
Rhywfaint	11	11	18	25
I gyd	9	13	15	22
Dim	69	66	48	37
Cyfathrebiad lafar mewn gwersi/sesiynau				
Rhywfaint	11	11	17	21
I gyd	6	9	12	21
Dim	72	67	52	40
Defnyddiau ysgrifenedig/taflenni gwaith				
Rhywfaint	13	14	22	30
I gyd	10	15	15	21
Dim	68	61	47	37

Noder: Mae celloedd wedi'u huwcholeuo ar gyfer AB neu Dysgu yn y Gwaith os yw % y rhanbarth o leiaf +/-5% yn uwch neu'n is na chyfartaledd cyffredinol Cymru. Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

Wrth archwilio a oedd darparwy'r wedi gofyn i ddysgwyr a hoffent ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o gwbl:

- Dywedodd 45% o ddysgwyr AB yng Ngogledd Cymru eu bod wedi cael cynnig (o'u cymharu â 32% ar gyfer AB yn gyffredinol).
- Dywedodd 53% o ddysgwyr Dysgu yn y Gwaith Gogledd Cymru eu bod wedi cael cynnig (o'u cymharu â 35% ar gyfer Dysgu yn y Gwaith) yn gyffredinol.

O ran dewis i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg:

- Roedd yn well gan 5% o ddysgwyr AB Gogledd Cymru ddysgu'n gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg (o'u cymharu â 6% ar gyfer AB yn gyffredinol).
- Roedd yn well gan 12% o ddysgwyr Dysgu yn y Gwaith yng Ngogledd Cymru ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfan gwbl neu'n rhannol (o'u cymharu â 8% ar gyfer Dysgu yn y Gwaith yn gyffredinol).

Cyn dechrau ar y cwrs

Cafwyd gwahaniaethau sylweddol yn y modd yr oedd dysgwyr Gogledd Cymru yn defnyddio ffrydiau cyngor o'u cymharu â'r darlun cenedlaethol:

- Ar gyfer AB yn y Gogledd, roedd dysgwyr yn fwy tebygol (o'u cymharu â ffigur cyfartalog Cymru ar gyfer AB) o fod wedi siarad â chyflogwyr ac yn llai tebygol o lawer o fod wedi siarad â bron i bob ffynhonnell gyngor arall a gynigiwyd iddynt ar yr holiadur.
- Ar gyfer Dysgu yn y Gwaith yng Ngogledd Cymru, roedd dysgwyr yn fwy tebygol o lawer o fod wedi siarad â chyflogwyr na ffigur cyfartalog Cymru (61% o'u cymharu â 55% yn gyffredinol) ac athrawon /

tiwtoriaid yn y sefydliad darparu (45% o'u cymharu â 36%). Roeddent yn llawer llai tebygol o fod wedi siarad â Gyrfa Cymru (39% o'u cymharu â 43%). Ar gyfer yr holl ffrydiau cyngor eraill, roedd y canrannau'n debyg ar y cyfan i'r ffigur cyfartalog cenedlaethol.

Ffynhonnell y cyngor (% yn defnyddio pob ffynhonnell)	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y Gogledd	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y Gogledd
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1553	1001	233
	%	%	%	%
Hyfforddwyr/tiwtoriaid yn y sefydliad darparu	40	35	36	45
Ffrindiau	36	29	37	36
Adran mynediadau'r coleg	27	25	16	19
Rhieni / aelodau eraill o'r teulu	25	14	39	38
Cyflogwr	24	30	55	61
Athrawon yn yr ysgol	22	12	26	26
Gyrfa Cymru	21	14	43	39
Cynghorwr gyrfael yr ysgol	20	7	33	31
Gwasanaeth Learn Direct	7	5	7	4
Gwefan Learn Direct	4	2	4	4

Noder: Mae celloedd wedi'u huwchleuo ar gyfer AB neu Dysgu yn y Gwaith os yw % y rhanbarth o leiaf +/-5% yn uwch neu'n is na chyfartaledd cyffredinol Cymru. Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

O safbwynt gwneud y penderfyniad a chael y dewis cyntaf:

- Llwyddodd 72% o ddysgwyr AB yng Ngogledd Cymru i sicrhau eu *dewis cyntaf o ddarparwr* (o'u cymharu â 77% ar gyfer AB yn gyffredinol).
- Llwyddodd 85% o ddysgwyr AB yng Ngogledd Cymru i sicrhau eu *dewis cyntaf o bwnc / cymhwyster* (o'u cymharu â 87% ar gyfer AB yn gyffredinol).
- Llwyddodd 65% o ddysgwyr Dysgu yn y Gwaith yng Ngogledd Cymru i sicrhau eu *dewis cyntaf o ddarparwr* (o'u cymharu â 61% ar gyfer Dysgu yn y Gwaith yn gyffredinol).
- Llwyddodd 83% o ddysgwyr Dysgu yn y Gwaith yng Ngogledd Cymru i sicrhau eu *pwnc/cymhwyster dewis cyntaf* (o'u cymharu â 81% ar gyfer Dysgu yn y Gwaith yn gyffredinol).

I archwilio'r data hwn ymhellach, ewch i wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gallwch lawrlwytho adroddiadau a dadansoddi'r data eich hun.

<http://newydd.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/research-and-evaluation/?lang=cy>

